

# **TGAU Cymraeg Iaith Uned 3**

**Trafod, Cyfarwyddiadol a Pherswâd**

**Rhoi organau**

# Cymraeg Iaith Uned 3

## Trafod, Cyfarwyddiadol a Pherswâd

### Rhoi organau

Mae saith darn darllen am roi a thrawsblannu organau yn yr adran hon, rhai ohonynt yn bytiog ac eraill yn ddi-dor a mwy estynedig. Cyflwynir y wybodaeth ynddynt mewn amrywiol ffyrdd ac mae'r elfen o her yn amrywio ynddynt. Ceir mathau o destun trafod, cyfarwyddiadol a pherswâd a bydd gofyn i'r ymgeiswyr ddehongli, cywain gwybodaeth ac ymateb yn briodol mewn amrywiol ffyrdd er mwyn ateb y cwestiynau. Mae gofyn i ymgeiswyr ddefnyddio amrywiol ddulliau a strategaethau wrth ddarllen y darnau er mwyn cywain, defnyddio gwybodaeth ac ymateb yn llwyddiannus i'r darnau wrth ateb y cwestiynau (cip, llithr a chraff ddarllen, a hefyd dilyniannu, wrth ateb y cwestiynau). Dylent hefyd fod yn gyfarwydd â nodweddion y gwahanol fathau o destunau/ysgrifennu ffeithiol.

#### Darn darllen 1

Darn di-dor yn cyflwyno dyddiadau penodol pryd a ble y digwyddodd rhai o'r trawsblaniadau organau cyntaf yw hwn. Rhoddir y dyddiad, enw'r organ neu ran o'r corff a'r wlad lle digwyddodd pob un. Dylai'r ymgeiswyr gip/lithr ddarllen y Llinell Amser i werthfawrogi'r drefn a'r datblygiad dros y blynyddoedd ym maes trawsblannu organau. Er mwyn ateb y cwestiwn, rhaid darllen yn graff er mwyn cywain y wybodaeth sydd ei hangen yn gywir.

#### Darn darllen 2

Ffeil ffeithiau sydd yma gyda phwyntiau bwled a brawddegau llawn yn cyflwyno peth gwybodaeth am roi organau. Mae'n ymwneud â'r prinder organau a'r rhesymau dros hynny. Mae'r cwestiwn yn gofyn i'r ymgeiswyr benderfynu pa rai o'r cwestiynau sy'n addas ar gyfer yr atebion neu'r ffeithiau hyn yn y darn darllen. Mae hyn yn gofyn am feddwl a dehongli er mwyn cael yr atebion cywir. Felly mae angen darllen gofalus, dehongli a dadansoddi er mwyn dod i benderfyniad. Rhaid sylwi ar eiriau fel hyn: *uwch na...., ond dim ond... oherwydd...prif resymau ...yw,* sy'n nodweddu'r math o ysgrifennu esboniadol hwn. Dylid annog ymgeiswyr i ddod i arfer gwneud hyn wrth ddehongli testun.

#### Darn darllen 3

Mae gwahanol fathau o destunau yn cael eu defnyddio yma i gyflwyno'r wybodaeth, gan gynnwys lluniau a diagram i esbonio trefn a chmau'r trawsblaniad penodol hwn. Dylid llithr ddarllen yn ogystal â chraff ddarllen er mwyn cywain y wybodaeth briodol yn llwyddiannus, i gael y manylion sydd eu hangen ac yna i ddilyniannu'r camau yn gywir. Mae hynny'n gofyn i ymgeiswyr edrych am gliwiau yn y camau yn y cwestiwn, gan nad yw'r geiriad bob tro yn union yr un fath ag ar y diagram yn y darn darllen.

#### **Darn darllen 4**

Mae'r darn hwn y rhoi gwybodaeth am yr organau a drawsblennir a phwy sy'n eu rhoi. Yn ail ran y darn gwelir yr elfen berswadiol lle anogir y darllenwyr i ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG. Ar y diwedd rhoddir cyfarwyddiadau sut i wneud hynny a defnyddir iaith gyfarwyddiadol (berfau gorchmynnol) – *defnyddiwch, ewch, ffoniwch, ysgrifennwch*, a phwyntiau bwled clir a threfnus.

#### **Darn darllen 5**

Manylu ar y newid yn y drefn o roi'r organau yng Nghymru wna'r darn hwn sy'n ddarn di-dor. Mae'n rhoi gwybodaeth am yr hyn sydd angen ei wneud, ond nid yw'n manylu cymaint nac yn rhoi cyfarwyddiadau penodol fel darn 4, felly gwelir y gwahaniaeth rhyngddynt a gellir cymharu hyn. Mae angen rhoi sylw i eiriau fel *cydsynio, gwrthwynebu, optio, system feddal* ayyb.

#### **Darn darllen 6**

Storiâu go iawn sydd yma, sef pytiau a lluniau o bobl sydd wedi derbyn neu wedi rhoi organau, ac ychydig o'u hanes. Cywain y wybodaeth briodol sydd ei angen ar gyfer ateb y cwestiwn ar y darn hwn.

#### **Darn darllen 7**

Darn **trafodaethol** yw hwn, darn di-dor estynedig sy'n rhoi barn 2 berson go iawn, un yn berson cyhoeddus amlwg a'r llall yn berson cyffredin sydd wedi derbyn trawsblaniad. Rhoddir eu rhesymau dros eu barn ac mae un o blaid a'r llall yn erbyn i raddau helaeth. Mae angen darllen yn fanwl a gofalus er mwyn deall a dehongli'r hyn a ddywedir yma. Angen rhoi sylw i eiriau fel *deddfwriaeth, rhagdybio caniatâd, datgan, gwrthwynebu*, er mwyn deall a dadansoddi'n briodol, ac er mwyn rhoi eu rhesymau eu hunain dros gytuno neu anghytuno â barn y ddau gymeriad. Gellir gwahaniaethu rhwng iaith/ieithwedd fwy ffurfiol yr Archesgob ac iaith dafodieithol fwy llafar, y cymeriad arall. Dylid hefyd sylwi ar eirfa'r math hwn o destun sef **mynegi barn** a rhesymu e.e. *dwi'n teimlo, o blaid, mae'n credu, rwy'n credu dylai...* Bydd rhain o gymorth iddynt wrth iddynt ateb y cwestiwn.

# Darnau Darllen



**TGAU**

**CYMRAEG IAITH**

**UNED 3**

**Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Cyfarwyddiadol a  
Pherwâd**


**Deunydd darllen i'w ddefnyddio gydag Adran A  
(PAPUR ENGHREIFFTIOL)**

## RHOI ORGANAU

Yn yr adran hon mae 7 darn darllen am roi a thrawsblannu organau.

Darllenwch bob un o'r darnau yn ofalus ac atebwch y cwestiynau.

### Darn Darllen 1



### Pryd cafodd yr organau hyn eu trawsblannu gyntaf ...?

Dyma Linell Amser yn dangos **rhai** o'r trawsblaniadau a lle digwyddon nhw.

1905	1954	1960	1963	1967	1968	1995	2001	2005	2012
Cornea	Aren	Aren	Iau/Afu	Calon	Calon	Rhan o ysgyfant	Ysgyfant cyflawn	Rhan o wyneb	Llaw
(Moravia)	(Boston)	(y Deyrnas Unedig)	(Colorado)	(De Africa)	(Llundain)	(y Deyrnas Unedig)	(Sweden)	(Ffrainc)	(y Deyrnas Unedig)

## Darn Darllen 2

### Ffeil Ffeithiau - Rhoi Organau

- *Mae nifer y bobl sy'n aros am drawsblaniad organ llawer yn uwch na nifer yr organau sy'n cael eu rhoi.*
- *Mae galw cyson am waed, ond dim ond tua 4% o bobl yn y DU sy'n gallu rhoi gwaed sy'n gwneud hynny.*
- *Mae llawer o bobl (bob dydd) yn marw cyn iddyn nhw allu cael trawsblaniad oherwydd nad oes digon o organau ar gael.*
- *Un o'r prif resymau bod prinder organau yw nad yw llawer o bobl wedi dweud eu bod yn barod i roi organau nac wedi trafod y peth gyda'u teuluoedd.*

## Darn Darllen 3

### O'r Mail arlein:

#### Taid yn derbyn trawsblaniad llaw (y cyntaf yn y Deyrnas Unedig)



Doedd Mark Cahill, 53 oed, ddim yn gallu defnyddio'i law dde oherwydd afiechyd.

Yn Rhagfyr 2012 cafodd lawdriniaeth arloesol – **trawsblaniad llaw**.

Ef oedd y person cyntaf yn y Deyrnas Unedig i gael 'hen law' wedi ei thynnu a chael 'llaw newydd' yn ei lle mewn un llawdriniaeth.

Cafodd llaw ei thrawsblannu am y tro cyntaf yn Equador yn 1964 ond bu farw'r claf ar ôl pythefnos.

Digwyddodd y llawdriniaeth lwyddiannus gyntaf yn yr Unol Daleithau yn 1999.

Yn awr, 2 flynedd ar ôl cael y trawsblaniad, mae Mark Cahill wedi gwella rhwng 50 a 75%.

Mae e'n gallu:

- ymolchi ei hun
- torri ei fwyd ei hun, heb orfod dibynnu ar ei wraig i wneud hynny
- clymu careiau ei esgidiau ei hun
- cario ei wyres fach

Hefyd mae e'n:

- bwriadu gyrru car yn y dyfodol


Mae trawsblannu calon fel rheol yn cymryd 6-8 awr ond mae trawsblannu llaw yn cymryd 8-12 awr.



## Cam wrth gam – sut roedd y llawdriniaeth hynod hon yn bosibl ..

**1.** Yr Athro Simon Kay a'i dîm yn aros am fraich 'roddedig' addas ddiwedd mis Tachwedd 2012.

**2.** Diwrnod wedi'r Nadolig daeth galwad fod llaw addas ar gael, ac erbyn y pnavn canlynol roedd Mr Cahill yn cael ei baratoi ar gyfer y llawdriniaeth 8 awr.



'Llaw newydd'

Nerfau

Cyhyrau

**7.** Ailgysylltu nerfau a gwythiennau bach.

**3.** Llawfeddygon yn dechrau tynnu'r 'hen law'.

**8.** Unwaith roedd y gwaed yn cylchdroi, yna cysylltu gweddill y cyhyrau, a chau y croen.

**4.** Cysylltu'r asgwrn yn ei fraich â'r 'llaw newydd' gyda phlatiau a sgriwiau titanium.

Gwythien

**5.** Nesaf, ailgysylltu cyhyrau.

Platiau a sgriwiau titanium

**6.** Yna, cysylltu 8 o wythiennau gwaed bychain er mwyn sicrhau digon o waed.

Braich Mark Cahill



## Darn Darllen 4





### Mae trawsblaniadau'n achub bywydau




Dywedwch wrth y rhai agosaf atoch chi beth yw eich dymuniad am roi organau.



**Mae rhoi organ yn helpu rhywun arall sydd angen trawsblaniad.**   
**Mae haelioni rhoddwyr a'u teuluoedd yn galluogi bron i 3,000 o bobl yn y DU bob blwyddyn i ailafael yn eu bywydau.** 


Defnyddir gwaed, organau, meinwe a mêr esgyrn i helpu pobl o bob oed a allai fod yn sâl, wedi eu hanafu neu sydd angen llawdriniaeth. 

 Trawsblannwyd aren yn llwyddiannus am y tro cyntaf ym 1954 a'r galon gyntaf ym 1967.

Gellir trawsblannu nifer o organau, er enghraifft arennau, y galon, iau neu afu, ysgyfaint, pancreas a'r coluddyn bach.   


Daw rhoddion oddi wrth wirfoddolwyr – pobl fel chi sy'n fodlon helpu rhywun arall, heb ofyn am unrhyw dâl na gwobr.

Mae croeso i bawb o unrhyw oed ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG.

 Ydych chi'n credu mewn rhoi organau? Os ydych chi'n fodlon cymryd organ, a fyddech chi'n fodlon rhoi un a helpu rhywun arall i fyw ar ôl i chi farw?

### Sut mae cofrestru

Defnyddiwch un o'r dulliau canlynol:



- ewch i [www.organdonation.nhs.uk](http://www.organdonation.nhs.uk) 
- ffoniwch **0300 123 23 23**
- ysgrifennwch SAVE mewn neges destun i **84118**
- llenwch y ffurflen hon a'i phostio


## Darn Darllen 5


Rhoi Organau Cymru – newidiadau yn y drefn o roi organau yng Nghymru...



O 1 Rhagfyr 2015 yng Nghymru, byddwch yn gallu dewis dweud eich bod wedi cydsynio i roi organau, a hynny drwy'r system 'feddal' newydd o optio allan. Felly, os ydych yn gwybod nad oes gennych unrhyw wrthwynebiad i roi eich organau, ni fydd angen i chi wneud dim byd. Ond os ydych yn gwybod nad ydych eisiau bod yn rhoddwr, gallwch optio allan. Caiff ei galw'n system **feddal** o optio allan gan y bydd y teulu bob amser yn cael ei gynnwys.

Nid oes gan y rhan fwyaf o bobl unrhyw wrthwynebiad i fod yn rhoddwr organau ar ôl iddynt farw. Ond nid yw'r **mwyafrif ohonom** yn gwneud unrhyw beth yn ei gylch, fel rhoi **ein henwau** ar y gofrestr rhoddwyr organau.  

O dan system feddal o optio allan nid oes **angen i chi wneud dim** er mwyn cael eich ystyried yn rhoddwr oherwydd o dan y gyfraith, gellid 'ystyried' eich bod wedi cydsynio. Os nad ydych am fod yn rhoddwr, gallwch 'optio allan'. 

Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth yn awr gan y bydd y system bresennol o roi organau yn parhau'n weithredol tan 1 Rhagfyr 2015. Tan hynny, os ydych chi'n gwybod eich bod eisiau bod yn rhoddwr, y ffordd orau o wneud yn siŵr bod pawb yn gwybod hynny yw drwy ymuno â'r Gofrestr Rhoddwyr Organau. 



## Darn Darllen 6


### Storiâu go iawn

 <p>Neil</p>	<p><b>Claf arenol yn brwydro ymlaen wrth aros am drawsblaniad</b></p> <p>Ganwyd Neil Robinson, sy'n 19 oed, gydag arenau diffygiol ac mae wedi bod ar ddialysis er pan oedd yn 2 oed. Oherwydd ei fod yn benderfynol o fyw bywyd llawn, mae wedi bod yn disgwyl am drawsblaniad aren drwy ei oes, ond yn y cyfamser mae'n rhaid iddo gael dialysis yn yr ysbyty dair gwaith yr wythnos.</p>
 <p>Phillip</p>	<p><b>Rhodwr organau yn rhoi bywyd i lawer o bobl eraill</b></p> <p>Roedd Phillip Traher yn fachgen oedd â diddordeb mewn rhaglenni meddygol, ac roedd yn gwybod bod ei rieni yn credu mewn rhoi organau. Cafodd ei organau eu defnyddio i helpu chwech o bobl.</p>
 <p>Hamzah</p>	<p><b>Person ifanc yn rhoi môr esgyrn ac yn arbed bywyd</b></p> <p>Mae Hamzah Khaled, 20, wedi bod yn rhodwr gwaed rheolaidd ers iddo weld cyflwyniad am hynny yn yr ysgol. Yn ei bedwaredd sesiwn rhoi gwaed yn ei ysgol, y penderfynodd ymuno â Chofrestrefa Môr Esgyrn Prydain.</p>
 <p>Sally</p>	<p><b>Merch ifanc yn cael trawsblaniad y galon jyst mewn pryd</b></p> <p>Cafodd Sally Salter drawsblaniad y galon pan oedd yn ddim ond 6 oed. Cyn hynny, roedd wedi mynd yn sâl gyda firws a gwaethygodd yn gyflym. Aeth ei mam Bridget â Sally i'r ysbyty ac yno cafodd ddiagnosis o fod yn dioddef gyda'r firws Cocksackie B sy'n debyg i ffurf facteraidd o lid yr ymennydd, ac roedd yn effeithio ar gyhyrau calon Sally.</p>
 <p>Awele</p>	<p><b>Rhodion gwaed yn galluogi myfyrwraig i fyw ei bywyd</b></p> <p>Cafodd Awele Nwosu-Akeh 17, ddiagnosis o fod yn dioddef o anemia crymangell pan oedd yn 10 oed. Mae hi wedi bod yn yr ysbyty lawer gwaith ond mae'n benderfynol o beidio â gadael i hynny effeithio ar ei bywyd, er gwaetha'r heriau o'i blaen.</p>

## Darn Darllen 7

### O blaid neu yn erbyn rhoi organau?

O dan gynlluniau Llywodraeth Cymru byddai organau pawb ar gael i'w rhoi ar ôl marwolaeth os na fydden nhw yn dewis peidio â rhoi.

O blaid	Yn erbyn
<p>Un sy'n sicr o blaid y mesur yw Angela Jones o Bwllheli. Fe dderbyniodd hi aren newydd ddwy flynedd yn ôl.</p> <p>"Mae wedi gwneud andros o wahaniaeth i fy mywyd i," meddai. "Dwi'n teimlo mod i'n cael bod yn fam unwaith eto. Tan mae o'n digwydd i chi'ch hun neu i aelod o'r teulu mae'n anodd sylweddoli pa mor bwysig ydi o. Mae yna gymaint o brinder."</p> <p>Yn ôl Ms Jones, mae'r ffaith bod gan bobl yr hawl i eithrio'u hunain rhag bod yn rhoddwyr yn ddigon i sicrhau na fydd organau'n cael eu rhoi heb ganiatâd.</p> <p>"Ella fydd rhai yn dweud 'wel pa hawl sydd gan bobl i jest tynnu darn o gorff?' Ond mae'r <i>opt out</i> yna iddyn nhw ac mae angen gwneud yn saff bod pobl yn gwybod am hynny - ond i mi mae'n syniad da iawn."</p>	<p>Un oedd yn gwrthwynebu'r mesur yw'r Archesgob Barry Morgan.</p>  <p>Mae'n credu y dylai'r penderfyniad i roi organau fod yn un mae person yn ei wneud yn ymwybodol, ac nad oes gan lywodraeth hawl i gymryd y penderfyniad hwnnw'n ganiataol.</p> <p>"Rwyf i o blaid trawsblannu organau ond dw i ddim o blaid y ddeddfwriaeth yma sydd yn rhagdybio caniatâd. Os yw rhywun sydd yn marw wedi penderfynu ei fod eisiau rhoi organau, yna dylai hynny ddigwydd, dim problem. Ac os oes rhywun sydd yn marw yn dweud 'dw i ddim eisiau gwneud', mae hynny'n glir. Ond pan mae pobl heb wneud unrhyw fath o ddatganiad rwy'n credu dylai perthnasau gael hawl i wrthwynebu a dweud nad ydyn nhw eisiau i hynny ddigwydd."</p>

# Papur Enghreifftiol





**TGAU**

**Cymraeg Iaith**

**UNED 3**

**Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Cyfarwyddiadol a  
Pherswâd**

**(PAPUR ENGHREIFFTIOL)**

**2 awr**

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Deunydd Darllen

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A.

Atebwch y **ddau** gwestiwn yn Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn hwn.

Mae tudalennau ychwanegol ar ddiwedd y papur os oes angen mwy o le arnoch i ysgrifennu.

Awgrymir eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau canlynol wrth ateb pob cwestiwn:

Adran A – tua 10 munud yn darllen  
– tua 50 munud yn ateb y cwestiynau

Adran B – tua 10 munud yn cynllunio  
Adran B1 – tua 25 munud yn ysgrifennu  
Adran B2 – tua 25 munud yn ysgrifennu

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Adran A (Darllen): 30 marc

Adran B (Ysgrifennu): 40 marc

Caiff nifer y marciau sydd ar gael ei ddangos mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

**Adran A (Darllen) : 30 marc**

**RHOI ORGANAU**

Yn yr adran hon mae 7 darn am roi a thrawsblannu organau. Mae rhoi organau yn golygu rhoi rhodd o organ o'ch corff i helpu rhywun arall sydd angen trawsblaniad.

**Darn Darllen 1**

Llinell Amser yn dangos dyddiadau **rhai** o'r trawsblaniadau.

A1. Pryd cafodd calon ei thrawsblannu gyntaf?

[1]



Rhowch  $\checkmark$  yn y blwch priodol.

1954

1968

2001

1967

A2. Nodwch ym mha wlad y cafodd 'ysgyfant cyflawn' ei drawsblannu gyntaf?

[1]



.....

**Darn Darllen 2**

**Ffeil Ffeithiau**

A3. Mae'r Ffeil Ffeithiau yn dangos yn amlwg bod gwir angen i bobl roi organau. Yn eich geiriau eich hun eglurwch yn fyr y rhesymau pam.

[2]



.....  
.....  
.....  
.....



### Darn Darllen 3

#### Taid yn derbyn trawsblaniad llaw

A4. Nodwch a yw'r ffeithiau canlynol yn gywir neu anghywir trwy roi ✓ yn y golofn Mae un ateb wedi ei roi i chi yn barod. briodol.

[2]



	Cywir	Anghywir
Mark Cahill oedd y person cyntaf yn y Deyrnas Unedig i gael 'hen law' wedi ei thynnu a chael 'llaw newydd' yn ei lle mewn un llawdriniaeth.	✓	
Ar ôl 2 flynedd, mae Mark Cahill wedi gwella 100%.		
Cafodd Mark Cahill 'law newydd' yn 1999.		
Mae Mark Cahill yn bwriadu gyrru car yn y dyfodol.		
Ar ôl dwy flynedd, mae Mark Cahill yn gallu cario ei fab bach.		

A5 Mae'r diagram yn Narn Darllen 3 yn dangos y camau yn llawdriniaeth trawsblaniad llaw Mark Cahill.

Rhowch y camau canlynol yn y drefn gywir trwy roi'r rhif yn y blwch priodol.

[4]

- Llawfeddygon yn dechrau tynnu'r 'hen law'
- Cysylltu gweddill y cyhyrau, a chau y croen, unwaith roedd y gwaed yn cylchdroi
- Ailgysylltu'r cyhyrau
- Er mwyn sicrhau digon o waed, cysylltu 8 o wythiennau gwaed bychain
- Y tîm meddygol yn aros am fraich 'roddedig' addas cyn y Nadolig 2012
- Cael gwybod ar Wyl San Steffan bod llaw addas ar gael, ac erbyn y pnawn canlynol Mr Cahill yn cael ei baratoi ar gyfer y llawdriniaeth
- Cysylltu'r asgwrn yn ei fraich â'r 'llaw newydd' gyda phlatiau a sgriwiau titaniwm
- Ailgysylltu nerfau a gwythiennau bach



## Darn Darllen 4

### Mae trawsblaniadau yn achub bywydau

- A6. Cysylltwch yr atebion cywir â'r cwestiynau priodol trwy dynnu llinell rhyngddynt. Mae un wedi ei wneud yn barod i chi. [2]

<p>Beth mae rhoi organau yn ei olygu?</p>	<p>Mae croeso i bawb o unrhyw oed ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG.</p>
<p>O ble y daw yr organau i gyd?</p>	<p>Trawsblannwyd aren yn llwyddiannus am y tro cyntaf ym 1954 a'r galon gyntaf ym 1967.</p>
<p>All unrhyw un roi organau?</p>	<p>Gellir trawsblannu nifer o organau, er enghraifft arenau, y galon, iau neu afu, ysgyfaint, pancreas a'r coluddyn bach.</p>
<p>Pa bryd y digwyddodd y trawsblaniadau organ cyntaf?</p>	<p>Defnyddir gwaed, organau, meinwe a mêr esgyrn i helpu pobl o bob oed a allai fod yn sâl, wedi eu hanafu neu sydd angen llawdrinaeth.</p>
<p>Pa organau y gellir eu trawsblannu?</p>	<p>Daw rhoddion oddi wrth wirfoddolwyr – pobl fel chi sy'n fodlon helpu rhywun arall, heb ofyn am unrhyw dâl na gwobr.</p>



### Darn Darllen 5

A7. Wrth ymuno â'r gofrestr rhoi organau, beth ydych chi'n cytuno i'w wneud?

Dewiswch **un** o'r canlynol trwy roi  $\surd$  yn y blwch priodol? [1]

- Rhoi caniatâd i ddefnyddio eich organau cyn i chi farw
- Rhoi caniatâd i ddefnyddio eich organau ar ôl i chi farw
- Rhoi caniatâd i'ch organau gael eu prynu ar gyfer eu defnyddio
- Rhoi caniatâd i'ch organau gael eu defnyddio heb eich caniatâd
- Rhoi caniatâd i'ch organau gael eu defnyddio gan eich teulu yn unig.



### Darn Darllen 4 a 5

A8. Mae'r ddau ddarn darllen yn ymdrin â'r un pwnc, sef rhoi organau.

Cymharwch y ddau gan drafod:

- y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno
- sut mae'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno gan yr awdur
- y neges sy'n cael ei chyflwyno

Dylech gyfeirio at y testun i gefnogi eich pwyntiau.



[10]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

## Darn Darllen 6

### Storiau go iawn

A9. Pa **un** o'r cymeriadau sy'n rhoddwr gwaed? [1]

Rhowch ✓ yn y blwch cywir.

- |               |                          |
|---------------|--------------------------|
| Neil Robinson | <input type="checkbox"/> |
| Hamzah Khaled | <input type="checkbox"/> |
| Sally Salter  | <input type="checkbox"/> |
| Sally Jones   | <input type="checkbox"/> |



A10. Nodwch pwy gafodd drawsblaniad y galon pan oedd yn yr ysgol gynradd? [1].



.....

**Darn Darllen 7**

**O blaid neu yn erbyn rhoi organau?**

A11. Yn y darn darllen enwir un person sydd o blaid rhoi organau ac un person sydd yn erbyn y mesur rhoi organau.

Gyda pha berson rydych chi'n cytuno?

Rhowch eich rhesymau gan gyfeirio at y darn



[5]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

**ADRAN B (Ysgrifennu) : 40 marc**

Atebwch y **ddau** gwestiwn canlynol.

Bydd hanner y marciau am gynnwys a threfn a hanner y marciau am ysgrifennu'n gywir yn y ddau gwestiwn.

**B1. Llythyr at y Golygydd**

**Ysgrifennwch lythyr at olygydd eich papur newydd lleol yn ceisio perswadio'r darllenwyr i helpu pobl eraill mewn gwahanol ffyrdd. Gallwch gyfeirio at waith gwirfoddol/elusennol e.e helpu'r digartref neu'r anabl yn ogystal â helpu eraill trwy roi gwaed neu roi organau.**

[20]

*Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

*Gallwch gynllunio eich llythyr yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.*

*Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.*



*Dylech geisio ysgrifennu rhwng 200 a 300 o eiriau.*

CYNLLUN:

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

LLYTHYR:

A large rectangular box containing 25 horizontal dotted lines for writing.

A large rectangular box containing 25 horizontal dotted lines, intended for writing.



A large rectangular box containing 25 horizontal dotted lines, intended for writing or drawing.

## B2. Deialog gyda ffrind

Rydych chi'n trafod rhoi organau gyda ffrind. Mae eich ffrind yn gwrthwynebu rhoi organau ond rydych chi o blaid. Ysgrifennwch ddeialog rhwng y ddau / ddwy ohonoch yn trafod y pwnc ac yn rhoi'r dadleuon o blaid ac yn erbyn. [20]

*Gallwch gynnwys rhai ffeithiau o'r darnau darllen i gefnogi eich barn a'ch rhesymau.*

*Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

*Gallwch gynllunio eich deialog yn y blwch canlynol cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.*

*Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.*

*Dylech geisio ysgrifennu rhwng 200 a 300 o eiriau.*



CYNLLUN:

A large rectangular box with a black border, containing 18 horizontal dotted lines for writing a plan.



A large rectangular area containing 25 horizontal dotted lines, intended for writing or drawing.

A large rectangular box with a solid black border, containing 25 horizontal dotted lines spaced evenly down the page. This is a template for writing.

# Cynllun Marcio



**TGAU**

**Cymraeg Iaith**

**UNED 3**

**Darllen ac Ysgrifennu: Trafod Cyfarwyddiadol a  
Pherswâd**

**Cynllun Marcio**

**(PAPUR ENGHREIFFTIOL)**

## Cynllun Marcio – RHOI ORGANAU

### DARN DARLLEN 1

- A1. Pryd cafodd calon ei thrawsblannu gyntaf? [1]  
(Casglu gwybodaeth)

Un marc am nodi:

- 1967

- A2. Nodwch ym mha wlad y cafodd 'ysgyfant cyflawn' ei drawsblannu gyntaf? [1]  
(Casglu gwybodaeth)

Un marc am nodi:

- Sweden

### DARN DARLLEN 2

- A3. Mae'r Ffeil Ffeithiau yn dangos yn amlwg bod gwir angen i bobl roi organau. Yn eich geiriau eich hun eglurwch yn fyr y rhesymau pam. [2]  
(Casglu a dehongli gwybodaeth)

Gwobrwyer 2 farc (marc yr un) am nodi rhesymau fel y canlynol:

- dim digon o organau ar gael
- pobl heb gofnodi eu dymuniad i roi organau.

### DARN DARLLEN 3

- A4. Nodwch a yw'r ffeithiau canlynol yn gywir neu anghywir trwy roi  $\checkmark$  yn y golofn briodol. Mae un ateb wedi ei roi i chi yn barod. [2]  
(Dehongli gwybodaeth)

Hanner marc yr un hyd at ddau farc am nodi'r ateb yn y golofn briodol.

	Cywir	Anghywir
Mark Cahill oedd y person cyntaf yn y Deyrnas Unedig i gael 'hen law' wedi ei thynnu a chael 'llaw newydd' yn ei lle mewn un llawdriniaeth.	$\checkmark$	
Ar ôl 2 flynedd, mae Mark Cahill wedi gwella 100%.		$\checkmark$
Cafodd Mark Cahill 'law newydd' yn 1999.		$\checkmark$
Mae Mark Cahill yn bwriadu gyrru car yn y dyfodol	$\checkmark$	
Ar ôl dwy flynedd, mae Mark Cahill yn gallu cario ei fab bach.		$\checkmark$



A5 Mae'r diagram yn Narn Darllen 3 yn dangos y camau yn llawdriniaeth trawsblaniad llaw Mark Cahill.

Rhowch y camau canlynol yn y drefn gywir trwy roi'r rhif yn y blwch priodol. [4]


Hanner marc yr un hyd at 4 marc am nodi'r rhif cywir yn y blychau.  
(Dehongli gwybodaeth a chysylltu syniadau)

- Llawfeddygon yn dechrau tynnu'r 'hen law'. 3
- Cysylltu gweddill y cyhyrau, a chau y croen, unwaith roedd y gwaed yn cylchdroi. 8
- Ailgysylltu'r cyhyrau. 5
- Er mwyn sicrhau digon o waed, cysylltu 8 o wythiennau gwaed bychain. 6
- Y tîm meddygol yn aros am fraich 'roddedig' addas cyn y Nadolig 2012. 1
- Cael gwybod ar Wyl San Steffan fod llaw addas ar gael, ac erbyn y pñawn canlynol roedd Mr Cahill yn cael ei baratoi ar gyfer y llawdriniaeth. 2
- Cysylltu'r asgwrn yn ei fraich â'r 'llaw newydd' gyda phlatiau a sgriwiau titaniwm. 4
- Ailgysylltu nerfau a gwythiennau bach. 7

#### DARN DARLLEN 4

- A6. Cysylltwch yr atebion cywir â'r cwestiynau priodol trwy dynnu llinell rhyngddynt. Mae un wedi ei wneud yn barod i chi. [2]  
(Casglu a chysylltu gwybodaeth)

Hanner marc yr un am gysylltu'r cwestiwn a'r sylw cywir â'i gilydd.



## DARN DARLLEN 5

A7. Wrth ymuno â'r gofrestr rhoi organau, beth ydych chi'n cytuno i'w wneud? [1]  
(Casglu a dadansoddi gwybodaeth)

Dewiswch **un** o'r canlynol trwy roi ✓ yn y blwch priodol?

Un marc am nodi:

- Rhoi caniatâd i ddefnyddio eich organau ar ôl i chi farw

## DARN DARLLEN 4 a 5

A8. Mae'r ddau ddarn darllen yn ymdrin â'r un pwnc, sef rhoi organau.

Cymharwch y ddau gan drafod:

- y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno
- sut mae'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno gan yr awdur
- y neges sy'n cael ei chyflwyno

Dylech gyfeirio at y testun i gefnogi eich pwyntiau.

[10]

(Dadansoddi, dehongli ac egluro a chymharu dau destun)

Gellir sôn am bwyntiau megis:

Darn 4	Darn 5
Gwybodaeth yn egluro beth mae rhoi organau yn ei olygu. Faint o bobl sy'n cael cymorth bob blwyddyn. Pa organau y gellir eu trawsblannu a gan bwy y ceir hwy. Pryd y trawsblannwyd aren a chalon yn Illwyddiannus gyntaf.	Egluro'r newid yn y drefn o roi organau yng Nghymru yn benodol o 1 Rhagfyr 2015 ymlaen.
Pwyntiau unigol yn cyflwyno'r ffeithiau, a chyfarwyddiadau sut i gofrestru. Delweddu, cwestiynau rhethregol, rhifau cyswllt, e-bost. Personol – cwestiynu.	Cyfeirio'n benodol at y darlennydd - <i>byddwch, nid oes rhaid i chi.</i> Personol – cynnwys pawb - <i>mwyafrif ohonom.</i> Paragraffau – ysgrifennu estynedig.
Anogaeth i bobl roi organau a sut i fynd ati i gofrestru i wneud hynny – penodol. Sut mae cofrestru (cyfarwyddiadau). Cwestiynau uniongyrchol – perswadio, procio.	Anogaeth i bobl roi organau – beth i'w wneud- <i>Tan hynny, os ydych chi'n gwybod eich bod eisiau bod yn rhoddwr, y ffordd orau o wneud yn siŵr bod pawb yn gwybod hynny yw drwy ymuno â'r Gofrestr Rhoddwyr Organau.</i>  Ddim yn rhoi cyfarwyddiadau penodol fel darn 4.

9-10	Dealltwriaeth lawn o'r darnau a'u pwrpas gan gyfeirio at y testun yn gyson. Trafod iaith / technegau arddull / cyflwyniad a dehongli eu heffaith yn llawn. Cymharu'r darnau'n aeddfed ac effeithiol.
7-8	Dealltwriaeth dda o'r darnau a'u pwrpas gan gyfeirio at y testun. Trafod iaith / arddull / cyflwyniad yn hyderus. Cymharu'r darnau'n dda.
5-6	Dangos dealltwriaeth o gynnwys y darnau a chyfeirio at y testun. Nodi rhai pwyntiau perthnasol am yr iaith /cyflwyniad. Ymdrech i gymharu'r darnau.
3-4	Codi ychydig wybodaeth o'r darnau. Nodi ambell sylw am yr iaith / cyflwyniad.
1-2	Ambell sylw am gynnwys y darn / darnau.

## DARN DARLLEN 6

A9. Pa **un** o'r cymeriadau sy'n rhoddwr gwaed? [1]

(Casglu gwybodaeth)

Rhowch ✓ yn y blwch cywir.

Un marc am nodi:

- Hamzah Khaled

A10. Nodwch pwy gafodd drawsblaniad y galon pan oedd yn yr ysgol gynradd. [1]

(Casglu gwybodaeth)

Un marc am nodi:

- Sally Salter

## DARN DARLLEN 7

A11. Yn y darn darllen enwir un person sydd o blaid rhoi organau ac un person sydd yn erbyn y mesur rhoi organau.

Gyda pha berson rydych chi'n cytuno?

Rhowch eich rhesymau gan gyfeirio at eu dadleuon yn y darn.

(Casglu a dehongli gwybodaeth)

[5]

Angela Jones - Mae wedi gwneud andros o wahaniaeth i'w bywyd. Teimlo ei bod yn fam unwaith eto. Cydnabod nad oes hawl tynnu darn o gorff heb ganiatâd ond mae dewis gan bobl oherwydd mae modd optio allan.

Archesgob Barry Morgan – Credu y dylai'r penderfyniad i roi organau fod yn un mae person yn ei wneud yn ymwybodol. O blaid trawsblannu organau ond ddim o blaid y ddeddfwriaeth yma sydd yn rhagdybio caniatâd ayyb.

4-5	Mynegi barn yn aeddfed a chllir gan gyfeirio'n gyson at y testun.
2-3	Ymdrech i fynegi barn gan gynnig rhai rhesymau.
0-1	Ambell sylw perthnasol.

## ADRAN B ( Ysgrifennu ) : 40 marc

Atebwch y **ddau** gwestiwn canlynol.

Bydd hanner y marciau am gynnwys a threfn a hanner y marciau am ysgrifennu'n gywir.

### B1. Llythyr at y Golygydd

**Ysgrifennwch lythyr at olygydd eich papur newydd lleol yn ceisio perswadio'r darllenwyr i helpu pobl eraill mewn gwahanol ffyrdd. Gallwch gyfeirio at waith gwirfoddol/elusennol e.e. helpu'r digartref neu'r anabl yn ogystal â helpu eraill trwy roi gwaed neu roi organau.**

[20]

*Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

*Gallwch gynllunio eich llythyr yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.*

*Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.*

*Dylech ysgrifennu rhwng 200 a 300 o eiriau.*

### B2. Deialog gyda ffrind

**Rydych chi'n trafod rhoi organau gyda ffrind. Mae eich ffrind yn gwrthwynebu rhoi organau ond rydych chi o blaid. Ysgrifennwch ddeialog rhwng y ddau / ddwy ohonoch yn trafod y pwnc ac yn rhoi'r dadleuon dros ac yn erbyn. Medrwch gynnwys rhai o'r ffeithiau o'r darnau darllen i gefnogi eich barn a'ch rhesymau.**

[20]

*Gallwch gynnwys rhai ffeithiau o'r darnau darllen i gefnogi eich barn a'ch rhesymau.*

*Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

*Gallwch gynllunio eich deialog yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.*

*Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.*

*Dylech ysgrifennu rhwng 200 a 300 o eiriau.*



**Cwestiwn B1 ac B2 (20 marc)**

	<b>CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)</b>	<b>YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)</b>
<b>Band 5</b>	<p><b>9-10 marc</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar</li> <li>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn</li> <li>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa</li> <li>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg</li> <li>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu</li> </ul>	<p><b>9-10 marc</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir</li> <li>• Gafael sicr iawn ar ramadeg</li> <li>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol</li> <li>• Defnydd eang o gystrawennau cywir</li> <li>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi</li> <li>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad</li> <li>• Gafael sicr iawn ar dreigladau</li> <li>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid</li> </ul>
<b>Band 4</b>	<p><b>7-8 marc</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol</li> <li>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd</li> <li>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa</li> <li>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg</li> <li>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn</li> </ul>	<p><b>7-8 marc</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir</li> <li>• Gafael sicr ar ramadeg</li> <li>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig</li> <li>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir</li> <li>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi</li> <li>• Sillafu sicr</li> <li>• Gafael sicr ar dreigladau</li> <li>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid</li> </ul>



	<b>CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)</b>	<b>YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)</b>
<b>Band 3</b>	<b>5-6 marc</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan</li> <li>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd</li> <li>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa</li> <li>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu</li> <li>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur</li> </ul>	<b>5-6 marc</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir</li> <li>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan</li> <li>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau</li> <li>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan</li> <li>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi</li> <li>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir</li> <li>• Mwyafrif y treigladau yn gywir</li> <li>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir</li> </ul>
<b>Band 2</b>	<b>3-4 marc</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Peth ysgrifennu cydlynol</li> <li>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd</li> <li>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd</li> <li>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol</li> <li>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau</li> </ul>	<b>3-4 marc</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Defnyddio peth ystod o eirfa</li> <li>• Gafael anghyson ar ramadeg</li> <li>• Amrywio brawddegau rywfaint</li> <li>• Peth gafael ar gystrawen</li> <li>• Peth gafael ar ystod o atalnodi</li> <li>• Sillafu yn eithaf cywir</li> <li>• Treigladau yn eithaf cywir</li> <li>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir</li> </ul>
<b>Band 1</b>	<b>1-2 marc</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgrifennu cydlynol elfennol</li> <li>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd</li> <li>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa</li> <li>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson</li> <li>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau</li> </ul>	<b>1-2 marc</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ystod gyfyngedig o eirfa</li> <li>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg</li> <li>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau</li> <li>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen</li> <li>• Peth ymdrech i atalnodi</li> <li>• Sillafu rhai geiriau yn gywir</li> <li>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau</li> <li>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid</li> </ul>
	Dim sy'n haeddu ei wobrwyo	